
Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer

Ymgynghoriad ynghylch penderfyniad dros dro Ofcom

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 12 Mehefin 2019

Dyddiad cau ar gyfer Ymatebion: 10 Gorffennaf 2019

1. Trosolwg

Mae'r BBC wedi cynnig newid BBC iPlayer, o fod yn wasanaeth ble mae rhaglenni ar gael i'w gwyllo am 30 diwrnod ar ôl eu darlledu, i fod yn wasanaeth ble mae rhaglenni ar gael am 12 mis fel mater o drefn, gyda rhai rhaglenni ar gael am gyfnod hirach.

Yn unol â Siarter a Chytundeb y BBC, rydym yn cynnal asesiad cystadleuaeth lle byddwn ni'n edrych ar y gwerth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu gan gynigion y BBC, yn dadansoddi'r ffordd maent yn effeithio'r gystadleuaeth, ac yn ystyried os ydy gwerth cyhoeddus yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau andwyol y canfyddwn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein dadansoddiad ynghyd â'n casgliadau dros dro. Rydym yn ymgynghori ynghylch ein casgliadau am bedair wythnos ac rydym yn disgwyl cyhoeddi ein casgliadau terfynol erbyn mis Awst 2019.

Ein casgliadau am y tro

Mae'r ffordd y mae pobl yn gwyllo rhaglenni yn newid yn gyflym. Nid yn unig mae gwylwyr eisiau dewis beth y maen nhw'n ei wyllo, ond maen nhw eisiau dewis sut, pryd a ble maen nhw'n ei wyllo. Er mwyn diwallu'r disgwyliadau hyn, mae datblygiadau sylweddol wedi bod o ran gwasanaethau fideo-ar-alw dros y blynyddoedd diwethaf gan gwmnïau fel Netflix ac Amazon Prime Video, ynghyd â Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus y DU. Felly, mae'r hyn y mae gwylwyr yn ei ddisgwyl gan y BBC yn newid hefyd, ac mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc.

Mae'r BBC wedi cynnig newid ei strategaeth o ran BBC iPlayer, er mwyn ei newid o fod yn wasanaeth dal-i-fyny i fod yn gyrchfan i gynulleidfaoedd. Rhai cynigion yw darparu'r rhan fwyaf o gynnwys y BBC am 12 mis, gyda rhaglenni plant am bum mlynedd, a rhywfaint o gynnwys am gyfnod hirach.

Rydym ni'n ystyried y cynigion trwy Asesiad Cystadleuaeth BBC. O dan Siarter a Chytundeb y BBC, mae ein gwaith yn cynnwys adolygu sut yr aeth y BBC ati i ddatblygu ei gynigion a'i asesiad o'i werth cyhoeddus. Rhaid i ni hefyd asesu effaith cynigion y BBC ar gystadleuaeth. Ar ôl hyn byddwn yn penderfynu naill ai bod y BBC yn cael gwneud y newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer; ei fod yn cael gwneud hynny yn unol ag amodau; neu nad yw'n cael rhoi'r cynlluniau ar waith.

Ein casgliad am y tro yw bod gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer yn cyfiawnhau'r effaith andwyol rydym wedi'i chanfod ar y gystadleuaeth deg ac effeithiol. Dros amser rydym yn ystyried y gallai esblygiad arfaethedig BBC iPlayer ddarparu gwerth cyhoeddus sylweddol, drwy gynyddu dewis ac argaeledd deunydd Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB). I raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod digwyliadau gwylwyr wedi newid a bod angen i'r BBC symud yn ei blaen i barhau'n berthnasol ar gyfer cynulleidfaoedd heddiw a'r dyfodol. Rydym ni, fodd bynnag, yn bryderus am yr heriau cystadleuol a greuwyd, yn arbennig ar gyfer gwasanaethau Gwyllo-ar-alw (VOD) darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill a newydd ddyfodiaid posibl o'r DU fel BritBox. Gallai gwylwyr y gwasanaethau hyn deimlo'r effeithiau os oes llai o fuddsoddiad yn y gwasanaethau hyn o ganlyniad. Felly, nid yw ein casgliad am y tro yn golygu y gall y BBC ymestyn a datblygu'r BBC iPlayer yn rhydd o unrhyw reolaeth rheoleiddiol pellach.

Mae'r casgliad hwn yn ddibynnol ar amodau a chanllawiau i sicrhau bod y BBC yn darparu'r gwerth cyhoeddus hwn a bod y risgiau i gystadleuaeth deg ac effeithiol yn cael eu lliniaru. Rydym ni'n bwriadu gosod amodau ar y BBC er mwyn sicrhau ei fod yn adolygu'n rheolaidd ac yn adrodd ar y ffordd y bydd y BBC iPlayer newydd yn cyfrannu at genhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn ôl y Siarter. Rydym ni'n credu y dylai BBC iPlayer allu datblygu yn unol â newidiadau arfaethedig presennol y BBC, ond os yw'r BBC eisiau gwneud newidiadau sylweddol pellach, bydd angen iddo ystyried yr effaith bosib ar y gystadleuaeth i ddechrau. Yn olaf, mae'n bwysig bod y BBC yn cadw at ei ddyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â dosbarthu er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau ar gael yn eang, a hynny ar sail deg, resymol a heb wahaniaethu.

Felly, ein casgliadau am y tro yw bod y BBC yn cael bwrw ymlaen â'i gynnig, cyn belled â'i fod yn cadw at yr amodau a'r canllawiau. Rydym ni'n ymgynghori ar ein casgliadau am y tro am bedair wythnos tan 10 Gorffennaf, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi'r penderfyniad terfynol erbyn mis Awst.